**CYNGOR GWYNEDD – Adroddiad i Gabinet Cyngor Gwynedd**

| | |
|---|---|
| **Teitl yr eitem:** | Adroddiad Perfformiad Aelod Cabinet cefnogaeth Corfforaethol a Chyfreithiol |
| **Aelod Cabinet:** | Cynghorydd Menna Trenholme |
| **Swyddog perthnasol:** | Iwan Evans – Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 20 Chwefror 2024 |

**1. Penderfyniad a Geisir**

**Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.**

**2. Y rheswm pam fod angen i'r Cabinet wneud y penderfyniad**

Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad yn effeithiol.

**3. Cyflwyniad a Rhesymeg**

3.1 Pwrpas yr adroddiad yma yw diweddaru fy nghyd aelodau ar yr hyn sydd wedi digwydd yn y meysydd yr wyf yn gyfrifol amdanynt fel Aelod Cabinet dros Adrannau Cefnogaeth Gorfforaethol a Chyfreithiol. Bydd yr adroddiad yn cynnwys amlinellu'r hyn sydd wedi digwydd ar brosiectau Gwasanaethau Cyfreithiol mesurau perfformiad arni.

3.2 Hoffwn eich atgoffa fod yr holl faterion eisoes wedi bod yn destun trafodaeth ac wedi eu craffu gennyf mewn cyfarfod gyda'r Tîm Rheoli ar 17 Ionawr.

3.3 Rwyf yn fodlon gyda'r prosiectau sy'n cael eu harwain gan yr Gwasanaeth , ynghyd a pherfformiad dydd i ddydd y Gwasanaeth a chydnabod y cyfraniad allweddol a wneir ganddynt i gefnogi gwaith y Cyngor.

**4. <u>GWASANAETH CYFREITHIOL</u>**

4.1 Mae perfformiad y Gwasanaeth yn cael ei fonitro drwy geisio adborth yr Adrannau sydd yn derbyn gwasanaeth. Fe gloriannir barn yn erbyn graddfa 1-5 ar ffurf e-bost syml ac mae'r trefn fonitro wedi gwella. (5 = Bodlon Iawn lawr i 1 = Hollol Anfodlon). Mae hefyd yn bosibl i adrannau ychwanegu sylwad ynghyd a sgôr. Ers ddechrau'r flwyddyn ariannol, mae'r sgôr ar y cyfan yn uchel iawn gyda 84% yn fodlon iawn gyda'r gwasanaeth a dim ond 14% yn ymateb ei bod yn weddol fodlon gyda'r ymateb ar gwasanaeth a ddarparwyd. Mae hyn yn adlewyrchu cyfnod o drosiant staff a locums sydd yn bwydo i'r adborth. Fel y nodir isod rydym wedi symud o'r sefyllfa yma mewn modd cadarnhaol.

**4.2 Byddwn yn parhau i flaenoriaethu recriwtio y Tim Cyfreithiol.**

**Beth sydd wedi ei gyflawni?**
Mae sefyllfa recriwtio y Tim Cyfreithiol wedi newid yn gadarnhaol a bellach ar sail gynaliadwy I'r dyfodol. Bellach mae pob swydd berthnasol wedi ei llenwi ac eithrio Swydd Cyfreithiwr Tai a Phrosiectau sydd yn parhau gyda 2 locwm rhan amser sydd yn arbenigo yn eu maes (1 ar waith Tir ac Eiddo ac 1 ar waith masnachol) er cynnal sefydlogrwydd. Mae hyn adlewyrchu gofynion penodol iawn sydd yn ynghlwm a’r swydd yma sydd yn cael eu hadolygu.

| | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Sgôr** | **%** | **Ebr** | **Mai** | **Meh** | **Gorff** | **Awst** | **Medi** | **Hyd** | **Tach** | **Rhag** | **Ion** | **Chw** | **Maw** |
| | | | | | | | | | | | | | |
| Bodlon Iawn 5 | 84 % | 10 | 1 | 4 | 15 | 3 | 10 | 2 | 3 | | | | |
| Bodlon 4 | 2% | | | | | | 1 | | | | | | |
| Gweddol Fodlon 3 | 14% | | | | | | 6 | | 1 | 1 | | | |
| Anfodlon 2 | | | | | | | | | | | | | |
| Anfodlon Iawn 1 | | | | | | | | | | | | | |
| Canran ymateb | 43% | | | | | | | | | | | | |

Bu’r adran yn llwyddiannus yn recriwtio swydd llawn amser ar gyfer cyfnod mamolaeth sydd i ddechrau ym mis Chwefror yn dilyn ymarferiad hysbysebu a chyfweld llwyddiannus, gan ddenu nifer o geisiadau dilys.

**Y camau nesaf**
`Bwriedir adolygu y sefyllfa yn rheolaidd.

**Risgiau**
Mae risg recriwtio bellach yn dangos yn wyrdd ond derbynnir fod defnydd o locwms er yn hwyluso gwaith, ddim yn cyfarch pob gofyn yn llawn ac mae tystiolaeth hanesyddol yn dangos ei fod wedi creu problemau ychwanegol (gweler sylwadau am fodlonrwydd gyda’r adran) . Mae’r Gwasanaeth wedi nodi y diffygion ar anawsterau a grëwyd ac mae addasiadau yn y trefniadau i oruwchwilio trefniadau . Mae hyn yn cael ei gyflawni gan y Rheolwr Gwasanaethau a’r Pennaeth Gwasanaeth .

**Amserlen**

Erbyn diwedd chwarter 3

**4.3 Byddwn yn caffael meddalwedd rheoli achos newydd ar gyfer y Gwasanaeth Cyfreithiol ar y cyd a phartneriaid yng Ngogledd Cymru**

**Beth sydd wedi ei gyflawni?**

Ar y cyd gyda 3 Cyngor arall yn y Gogledd rydym wedi comisiynu cwmni i fod yn ddarparwr sustem newydd. Mae hon yn sustem sydd yn ganolog I'r Gwasanaeth allu gweithredu. Bydd y sustem yma er yn ddrytach o ran costau yn gam sylweddol ymlaen o ran hygyrchedd ar lein, ystwythder ,asio gyda sustemau megis iGwynedd, a Microsoft Office a chynnal swyddfa di-

bapur. Bydd hefyd yn agor y drws i gyfleon megis e.e i adrannau allu mewngofnodi i gael gwybodaeth am achosion a'r cynnydd arnynt. Daeth y sustem yn fyw yn ystod wythnos cyn wyliau'r Nadolig 2023, ac er manion elfennau technegol mae'r rhagolygon am ei ddefnydd yn gadarnhaol.

**Y camau nesaf**

Mae'r prif sustem yn ei le ond mae gwaith ychwanegol yn ei anterth yn creu sustem sydd ar gyfer anghenion Gwynedd. Mae nifer o sesiynau hyfforddi eisoes wedi cymryd lle a mae mwy ar y gorwel. Mae'r tim yn cael sesiynau rheolaidd wythnosol i drin a thrafod y sustem ac i gefnogi ei gilydd i ddatblygu gwell defnydd o'r sustem ac i adolygu sustemau hanesyddol yr adran.

**Risgiau**

Roedd y brif risg ynglŷn a dirwyn cefnogaeth y sustem flaenorol i ben. Roedd y brif risg ynghyd a throsglwyddo holl ddata yr adran yn gywir i'r sustem newydd. Mae hyn wedi digwydd ac er fod rhai problemau technegol ar y dechrau, mae hyn wedi ei ddidoli. Yn amlwg mae dyddiad wedi ei roi ar gyfer y gwaith gorffenedig ond bydd angen sicrhau fod hyn yn digwydd cyn i'r sustemau cyfredol ddod i ben.

**Amserlen**

Mae'r 6 mis o gyfnod ymarferol mewnol wedi ei benodi ar gyfer cefnogaeth a hyfforddi ar y sustem.

**4.4 <u>Byddwn yn adolygu a sicrhau adnoddau digonol ar gyfer cefnogi gofynion ar y Gwasanaeth sydd yn deillio o waith rhanbarthol</u>**

**Beth sydd wedi ei gyflawni?**

Mae datrys ein sefyllfa recriwtio yn golygu fod modd bellach symud ymlaen i gynllunio sut y gellir cyfarch y gofynion rhanbarthol. Wrth i'r Cyd Bwyllgor Corfforedig Rhanbarth y Gogledd symud i fod yn weithredol mae cynnydd ar draws y bwrdd mewn gofyn am adnoddau. Mae hyn yn parhau yn her ond yn fater sydd yn cael ei gydnabod o fewn y prosiect .

**Y camau nesaf**

Gweithio fel rhan o dim rheoli y Cyd Bwyllgor i adnabod adnoddau angenrheidiol i gynnal yr awdurdod newydd. Mae adnodd ychwanegol bellach mewn lle i gefnogi y Swyddog Monitro

**Risgiau**

Methu a sicrhau adnoddau digonol a chreu y capasiti priodol i gynnal y gwaith o sefydlu y Cyd Bwyllgor.

**Amserlen**

Mae'n fwriad fod swyddogaethau y Bwrdd uchelgais yn trosglwyddo i'r Cyd Bwyllgor Corfforedig erbyn yn ystod 2024. Bydd yr adnodd yn cael ei adnabod a datblygu ar hyd y cyfnod yma.

## 5. **PRIODOLDEB**

**5.1 Byddwn yn parhau i gefnogi a chynghori ar swyddogaethau y Cyngor o safbwynt sicrhau priodoldeb cyfansoddiadol, cyfreithiol a gweinyddiaeth.**

**Beth sydd wedi ei gyflawni?**

Mae'r gwaith yma yn barhaol ond yn benodol bwriedir cynnal cyfres o seminarau "Penderfyniadau Da" i staff. Seminarau fydd ynglŷn a sylfaen cyfreithiol cyrraedd penderfyniad cadarn. Er fod y rhaglen yma wedi llithro bwriedir eu sefydlu yn ystod Haf 2024. . Amcan y cyrsiau yw esbonio hanfodion penderfyniadau mewn cyrff cyhoeddus ynghyd a'r fframwaith gyfansoddiadol a rheoleiddio sydd ynglŷn a'r maes yma. Mae peilot wedi ei gynnal ac ymateb yn gadarnhaol.

**Y camau nesaf**

Sefydlu rhaglen o seminarau

**Risgiau**

Mae'r gwaith yma yn rhan o drefniadau llywodraethu y Cyngor sydd yn derbyn trosolwg y Grŵp Llywodraethu

**Amserlen**

Mae'r gwaith yn gyson . Oherwydd gofynion eraill mae'r bwriad i gynnal y seminarau yma wedi llithro.

**5.2 Byddwn yn gweithio gyda'r Pwyllgor Safonau, Arweinyddion Grwpiau Gwleidyddol ac Aelodau ynghyd a swyddogion perthnasol i gynnal a chefnogi safonau uchel o ymddygiad ymysg cynghorwyr.**

**Beth sydd wedi ei gyflawni?**

Byddwn yn mynd ati yn ystod ail a thrydydd chwarter y flwyddyn i roi ffocws ar waith cyd weithio a chefnogi gyda'r dyletswydd newydd ynglŷn ag ymddygiad aelodau gyda arweinyddion grwpiau. Yn ogystal gan adlewyrchu gofyn a amlygwyd yn sgil sesiynau anwytho bwriedir cynnal cyrsiau Cod Ymddygiad i aelodau'r Cyngor yn ystod chwarter olaf 23/24 ac ynghynt os yw adnoddau yn caniatáu.

**Y camau nesaf**

Cynhaliwyd cyfarfod rhwng aelodau y Pwyllgor Safonau a'r Arweinyddion Grwpiau i hyrwyddo a chefnogi gweithredu y dyletswyddau newydd. O ganlyniad cafwyd cytundeb ar y meini prawf arfaethedig a threfn ar gyfer cyfarfodydd cyson rhwng y Swyddog Monitro a'r Arweinyddion i gefnogi y gwaith.

**Risgiau**

Risgiau o ran enw da y Cyngor os na fydd y dyletswydd yn cael ei gyfarch.

**Amserlen**

Paratoi ar gyfer adroddiad blynyddol y Pwyllgor Safonau ac yn benodol y gyd berthynas gyda rôl Arweinyddion Grwpiau. Bellach mae'r cyfarfod cychwynnol y Swyddog Monitro gyda'r Arweinyddion Grwpiau wedi cymryd lle.

5.3 **Byddwn yn cwblhau y prosiect gweithredu Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau ( Cymru) 2021 ac yn benodol ystyriaeth ar yr opsiynau sustemau pleidleisio etholiadau lleol.**

**Beth sydd wedi ei gyflawni?**

Mae prif elfennau y prosiect yma wedi eu cyfarch bellach ac yn symud i fod yn weithredol. Adroddwyd ar y cynnydd i Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Yr elfen o'r prosiect sydd angen ei gwblhau yw cyfarch y dewis o sustemau pleidleisio ar gyfer etholiadau y cyngor. Cyflwynwyd adroddiad ar y gyfundrefn i'r Grŵp Busnes a bydd trafodaethau pellach yn dilyn ar y llwybr priodol ar gyfer ystyried y dewis sydd yn y Ddeddf ar gyfer trefniadau etholiadol Cyngor Gwynedd. Adroddwyd i'r Cyngor Llawn yn Rhagfyr 2023.

Eitem 11 - Dewis ar Fabwysiadu System Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy ar gyfer Etholiadau Cyngor Gwyn.pdf (llyw.cymru)

**Y camau nesaf**

Gyda penderfyniad y Cyngor yn Rhagfyr i symud ymlaen i gychwyn proses ystyried PSD sefydlwyd tim gweithredol i reoli y prosiect a bwriedir adrodd i Gyngor Mis Mawrth gyda rhaglen a phroses ymgynghori I'w gymeradwyo

**Risgiau**

Mae amserlen statudol yn golygu y byddai rhaid dod i benderfyniad erbyn Tachwedd 2024 os am symud i sustem amgen.

**Amserlen**
Bwriedir adrodd i Gyngor Mis Mawrth gyda rhaglen a phroses ymgynghori I'w gymeradwyo

5.4 **Byddwn yn ymgymryd ac adolygiad o'r Cyfansoddiad yn ystod y flwyddyn er sicrhau ei fod yn parhau yn gyfredol ac yn addas i bwrpas.**

**Beth sydd wedi ei gyflawni?**
Mae dwy elfen i hyn , diweddariadau sydd yn deillio o newidiadau statudol a addasiadau sydd yn cyfarch anghenion presennol y Cyngor a gwelliannau posib. Bydd y daith i benderfyniad yn amrywio yn ôl y testun . Bydd angen gwaith ac ymgynghori pellach ar adolygiad o'r adran Swyddogion ynghyd a diweddariadau I'r elfennau Cynllun Dirprwyo

**Y camau nesaf**

Cyfrannu at yr adolygiad Craffu a chwblhau y gwaith o ddiweddaru

**Risgiau**

Mae Cyfansoddiad cyfredol yn allweddol i gynnal busnes y Cyngor a gall diffygion arwain at ansicrwydd ac oedi mewn penderfyniadau allweddol ynghyd a risg o her

**Amserlen**

Rhagwelir y bydd cwblhau y gwaith yma yn llithro i Gyngor Mis Mai oherwydd pwysau materion eraill.

## 6. ETHOLIADAU A CHOFRESTRU ETHOLIADOL

### 6.1 Byddwn yn gweithio gefnogi y Swyddog Canlyniadau a'r Swyddog Cofrestru Etholiadol yn benodol yn cyfarch:

_

- **Ymateb i ffiniau newydd etholaethau etholiadau DU**
- **Deddf Etholiadau 2022**
- **Paratoi ar gyfer newidiadau Etholiadol Senedd Cymru**

**Beth sydd wedi ei gyflawni?**

Rydym wedi sefydlu trefniadau ar gyfer etholiadau DU gyda Cynghorau Conwy a Dinbych lle mae ffiniau etholaethau yn croesi ffiniau sirol. Mae'r trefniadau ar gyfer cardiau adnabod yn weithredol a daeth y drefn newydd ar gyfer pleidleisio post (DU) yn weithredol ar 31/10/23. Rydym wedi ymateb i bapur Gwyn y Llywodraeth ar drefniadau etholiadol Senedd Cymru ac yn disgwyl ar y camau nesaf. Mae rhaglen waith gynhwysfawr wedi ei chynhyrchu ar draws y meysydd yma ynghyd a threfniadau asesiad risg sydd yn destun monitro cyson. Rydym wedi penodi swyddog llawn amser ychwanegol gan ddefnyddion adnoddau grant i gefnogi y gwaith yma

**Y camau nesaf**

Gweithredu y rhaglen waith

**Risgiau**

Methu a chyflawni y gofynion ar gyfer etholiadau ond mae'r asesiad risg yn dangos fod statws dderbyniol i gyflawni y gofynion yma.

**Amserlen**

Yn unol a'r amserlen yn y rhaglen waith.

### 6.2 Byddwn yn dechrau ar y broses o benderfynu o gynnal Arolwg Cymunedol statudol gan gasglu data, cynnal ymgysylltiadau cychwynnol

**Beth sydd wedi ei gyflawni?**

Mae'r gwaith cychwynnol o gasglu gwybodaeth ac ymgysylltu wedi cychwyn

**Y camau nesaf**

Wedi derbyn y wybodaeth byddwn yn cloriannu yr hyn sydd wedi ei dderbyn gyda'r bwriad o adrodd i'r yngor Llawn ym Mis Mawrth gyda Cylch gorchwyl ar gyfer yr adolygiad. Bwriedir hefyd fynd ati i gynnal adolygiad etholiadol yn gyfochrog a'r broses fydd yn ymestyn i'r flwyddyn ariannol nesaf. Bydd sgôp yr adolygiad yn cael ei ddiffinio fel rhan o'r broses yma.

**Risgiau**

Methu a chynnal adolygiad yn unol a'r gofyn statudol ond mae'r asesiad risg yn dangos fod statws dderbyniol i gyflawni y gofynion yma..

**Amserlen**

Adrodd ar y rhan cyntaf o'r prosiect i'r Cyngor Llawn ym Mis Mawrth 2024.

**6.3 <u>Byddwn yn cynnal Adolygiad Mannau Pleidleisio.</u>**

**Beth sydd wedi i gyflawni ?**

Gwaith cychwynnol o gasglu gwybodaeth ac ymgysylltu wedi cychwyn, yn cynnwys anfon holiaduron i asesu addasrwydd pob gorsaf bleidleisio.

**Y camau nesaf**

Cloriannu'r wybodaeth a cheisio cyngor arbenigol drwy'r Swyddog Cydraddoldeb ar hygyrchedd. Edrych am orsafoedd amgen yn ôl yr angen. Mae hyn yn digwydd fel mater o drefn

**Risgiau**

Gorsafoedd ddim bellach ar gael neu'n anaddas, ond byddwn yn dod o hyd i ddatrysiad priodol ar gyfer unrhyw etholiad a gynhelir.

**Amserlen**

Dechrau'r broses ymgynghori statudol ym mis Mehefin 2024 gydag adroddiad i'r Cyngor Llawn ym mis Rhagfyr 2024 i gymeradwyo canlyniad yr adolygiad.

## 7. <u>CEFNOGAETH CRWNER</u>

**7.1 <u>Sefydlu y Swydd Uwch Grwner ar sail barhaol a sicrhau sail cynaliadwy.</u>**

**Beth sydd wedi ei gyflawni?**

Ar hyn o bryd rydym yn cynnal trafodaethau gyda'r Uwch Grwner i adnabod y gofynion a'r ymatebion rhesymol bosib ar gyfer y tymor canolig. Bydd hyn yn cynnwys adolygiad o'r drefn cyllido ac yn benodol hefyd costau cwest hir sydd yn gallu bod yn sylweddol.

**Y camau nesaf**

Cytuno ar y trefniadau cefnogi ar gyfer y gwasanaeth a sut all y timau eraill gyfrannu.

**Risgiau**

Mae gan y Cyngor ddyletswydd statudol i ddarparu adnoddau staff a swyddfa ynghyd a lleoliadau ar gyfer y gwasanaeth yma. Mae angen trefnu fod cytundeb ar lefel o adnoddau sydd yn cynnal y gwasanaeth.

**Amserlen**

31 Rhagfyr 2023

**7.2** **<u>Ymateb i gais gan Heddlu Gogledd Cymru i'r awdurdodau lleol ariannu swyddi gweinyddol Swyddogion Crwner</u>**

**Beth sydd wedi ei gyflawni?**

Cynnal trafodaeth gychwynnol gyda Chyngor Sir Ddinbych (yr awdurdod perthnasol arall ar gyfer yr ardal) a'r Uwch Grwneriaid.

**Y camau nesaf**

Cysylltu gyda Heddlu Gogledd Cymru am fwy o fanylion a'u hystyried o safbwynt gofynion y Uwch Grwneriaid.

**Risgiau**

Byddai'r trefniant yn golygu symud oddi wrth y drefn gyfredol o o ariannu gwasanaeth y Crwner. Gallai agor y drws i newidiadau sylfaenol yn y drefn gydag oblygiadau ariannol sylweddol.

**<u>Sefyllfa Risgiau/Gwasanaeth</u>**

- Cyfrannu at waith rhanbarthol gan gydnabod fod y sefyllfa risg yma yn ddarostyngedig i adolygiad bellach,
- Ymateb ac ymgorffori newidiadau mewn trefniadau etholiadol ar lefel y DU a bellach gyda cyhoeddi papur gwyn darpar newidiadau mewn etholiadau datganoledig.

- Heddlu wedi gofyn am adolygu ariannu gwasanaeth swyddogion crwner.

**8.Sylwadau Swyddogion Statudol**

**8.1 Prif Swyddog Cyllid**

"Rwyf yn nodi'r cyfeiriad at ariannu Gwasanaeth y Crwner, a bydd yr Adran Gyllid yn cydweithio gyda'r Gwasanaeth Cyfreithiol i gadw'r mater dan sylw. Fel arall, nid oes gennyf sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb ariannol.

**8.2 Swyddog Monitro**

Awdur yr adroddiad